TAFLEN GWYBODAETH

Gwasanaeth Tai Cefnogol yn y Gymuned

Beth yw'r Gwasanaeth Tai Cefnogol yn y Gymuned?

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn cynnig gwasanaeth i denantiaid cymwys sy'n debyg i'r gwasanaeth wrth fyw mewn cynlluniau tai gwarchod ond drwy aros yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r gefnogaeth yn cael ei chynnig er mwyn helpu i denantiaid gael parhau i fod yn annibynnol cyn hired ag sy'n bosib gan wella ansawdd eu bywyd, iechyd a lles.

Mae'r Gwasanaeth Tai Cefnogol yn y Gymuned yn cynnwys:

- Ymweliadau cefnogol i'ch cartref (o leiaf 45 munud yr wythnos). Ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ymweliadau yw'r rhain ar gyfer pobl sy'n unig ac eisiau cwmni a chefnogaeth (gwiriadau lles rheolaidd) gan ddarparu diogelwch a sicrwydd. Gall y Swyddog Tai Cefnogol roi cyngor a help ar nifer o bethau sy'n ymwneud â'r cartref
- Cymorth lle bo angen i helpu reoli arian a thalu biliau
- Cyswllt a chyfeirio at asiantaethau eraill fel gwasanaeth siopa neu lanhau gan Age Cymru, Cyngor ar Bopeth, addasiadau, gofal yn y cartref (Gwasanaethau Cymdeithasol) ayb
- Cynllun Cefnogi Personol yn seiliedig ar anghenion sydd wedi eu hasesu
- Gosod sêff goriad ar eich eiddo lle bod angen er mwyn cael mynediad mewn argyfwng
- Gosod system larwm argyfwng (lifeline). Rhaid cael ffôn tŷ iddo weithio
- Gwahoddiadau i wahanol weithgareddau yn eich Cynllun Tai Cefnogol agosaf neu sefydliadau cymunedol yn eich ardal fel boreau coffi, clwb cinio, bingo, clwb celf, ymarfer corff o'r gadair ayb

NODWCH OS GWELWCH YN DDA: Ni all Swyddogion Tai Cefnogol wneud pethau fel siopa, coginio, glanhau a gofal personol. Cyfrifoldeb sefydliadau gofal fel Age Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal y Cartref yw pethau fel hyn.

Pwy sy'n gymwys i gael y gefnogaeth?

Rhaid i chi fod yn denant CCG er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth yma. Bydd gofyn i chi gwrdd ag un neu fwy o'r criteria canlynol:

✓ Dros 55 mlwydd oed
✓ Anabl

Bydd rhaid arddangos eich bod **angen** y gwasanaeth sydd wedi ei ddiffinio yn 'Mae'r gwasanaeth tai cefnogol yn y gymuned yn cynnwys'.

Yn parhau drosodd >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

TAFLEN GWYBODAETH

Gwasanaeth Tai Cefnogol yn y Gymuned

Oes rhaid i mi dalu am y gwasanaeth?

Mae yna dâl wythnosol am Swyddog Tai Cefnogol a Gwasanaeth Larwm Argyfwng ac mae talu am y gwasanaethau hyn yn cael ei godi ar wahân i'ch rhent.

Bydd gofyn i chi dalu tâl gwasanaeth am y gwasanaeth yma. Mae'r gost yn cynnwys:

- **Gwasanaeth Larwm Argyfwng: £2.16 yr wythnos**
- **Gwasanaeth Swyddog Tai Cefnogol: £11.06 yr wythnos**

(Cewch wybod am unrhyw cynnydd yn y gost)

Os ydych yn cael budd-dal tai neu gredyd cynhwysol (elfen budd-dal tai), bydd y Gwasanaeth Cefnogi Pobl Cyngor Gwynedd yn talu am y gwasanaeth uchod drwy'r grant cefnogi pobl.

Sut gallaf wneud cais am y Gwasanaeth yma?

Os oes gennych ddiddordeb yn y Gwasanaeth Tai Cefnogol yn y Gymuned neu os ydych eisiau sgwrs anffurfiol gydag un o'n Swyddogion Tai Cefnogol, ffoniwch ni ar 0300 123 8084.

Am fwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth am unrhyw beth ar y daflen hon, cysylltwch gyda ni ar **0300 123 8084** neu ymholiadau@ccgwynedd.org.uk / www.ccgwynedd.org

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Supported Housing Service in the Community

What is the Supported Housing Service in the Community?

Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) are offering eligible tenants a similar service to living in one of our sheltered housing schemes, but, by remaining in their own home.

The support offered is to help retain the tenant's independence for as long as possible, improve quality of life, health and wellbeing.

The Community Supported Housing Service includes:

- Support visits to your home (minimum 45 minutes a week). Available Monday to Friday. These visits are for someone who is lonely and requires company and support (regular welfare checks) establishing safety and security. The Supported Housing Officer can provide advice or assist on a range of housing related matters
- Assistants available if necessary to help manage money and pay bills
- Links and referrals to other agencies, such as; for shopping or cleaning service by Age Cymru, Citizens Advice Bureau, adaptations, homecare (Social Services) etc
- A Personal Support Plan based on your assessed needs
- A key safe installed at your property if required for access in case of emergencies
- Installation of an emergency alarm system (lifeline). A telephone line must be installed
- Invitations to different activities at your nearest Supported Housing Scheme or community organisations within your area, such as; coffee mornings, lunch club, bingo, art club, chair exercise etc

PLEASE NOTE: Supported Housing Officers are not able to carry out duties such as shopping, cooking, cleaning and personal care. These are the responsibility of care organisation such as, Age Cymru and Social Service, Homes Care.

Who is eligible for this support?

You must be a CCG tenant in order to be eligible for this service. You will also need to meet one or more of the following criteria:

✓ Age 55 or over
✓ Disabled

You must also **need** the support service as defined in 'The Supported Housing Service in the Community includes'.

Continues >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Supported Housing Service in the Community

Do I have to pay for this service?

There is a weekly charge for the Supported Housing Officer and Emergency Alarm Service and payment for these services are charged separately from your rent.

You will be expected to pay a service charge for this service. This costs goes towards:

- **Emergency Alarm Service: £2.16 weekly**
- **Supported Housing Officer Service: £11.06 weekly**

(You will be informed of any increase in cost)

If you are in receipt of housing benefit or universal credit (housing benefit element), Gwynedd Council's Supporting People service will pay for the above service through the supporting people grant.

How can I make a request for this Service?

If you are interested in the Supported Housing Service in the Community or if you would like an informal chat with one of the Supported Housing Officers, please feel free to contact us on 0300 123 8084.

For more information

For more information about anything included in this leaflet, please contact us on **0300 123 8084** or enquiries@ccgwynedd.org.uk / www.ccgwynedd.org

If you would like to receive this leaflet in a different format, such as Braille, large text or in another language, contact us on 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD